Golf Club Lane (Cau Ffordd)

<u>Disgrifiad o'r Cynnig</u>

Mae'r grŵp Projectau Trafnidiaeth yn cynnig cau'r ffordd uchod fel rhan o Raglen Rheoli Traffig y dyfodol.

Mae Golf Club Lane yn cael ei defnyddio gan gerddwyr a marchogion at ddibenion hamdden ac mae posibilrwydd y gall hefyd fod yn llwybr beicio da. Mae ceir preifat sy'n defnyddio'r lôn yn creu perygl gwirioneddol neu bosibl i gerddwyr a dim ond ychydig iawn o gyfleoedd sydd i gerbydau basio ei gilydd. Os caiff ei chau, byddai'r lôn yn dod yn gyfleuster hamdden dymunol a diogel a gallai hefyd fod yn gyfleuster beicio oddi ar y ffordd da fel rhan o'r rhwydwaith beicio. Mae gan gerbydau preifat lwybr cyfleus arall i Radur drwy Heol Isaf.

Caiff y ffordd ei chau gan folardiau cloadwy y gellir eu tynnu i alluogi cerbydau i gael mynediad at ddibenion cynnal a chadw.,,

<u>Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.</u> Cyfyngiadau yw'r rhain, a osodir ar y Briffordd, sy'n cyfarwyddo, rheoli neu wahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20 mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Traffig Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, gosodir arwyddion neu linellau ar y safle a bydd yr Heddlu neu eu Wardeniaid Traffig yn eu gorfodi.

<u>Bolard.</u> Postyn a wneir o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

<u>Llwybr a Rennir</u> Mae'r llwybr troed hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. I sicrhau bod pob cerddwr a beiciwr yn gallu ei ddefnyddio heb drafferth, bydd y llwybrau hyn fel arfer yn dri metr o led a chânt eu nodi gan arwyddion a marciau ffordd. Mewn rhai sefyllfaoedd bydd y llwybr yn cael eu rhannu gyda cherddwyr ar un ochr a beicwyr ar yr ochr arall, ond mae angen llwybr lletach ar gyfer hyn a gall achosi problemau os nad yw'r defnyddwyr yn sylwi pa ochr y dylent ddefnyddio. Mae'r llwybr lletach o ddefnydd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd a chadeiriau gwthio. Mae hefyd o fudd i feicwyr, yn enwedig y rhai sydd angen defnyddio beiciau tair olwyn neu ôl-gerbydau oherwydd oed neu anabledd ac i'r rheiny sy'n ifanc iawn neu sy'n feicwyr dibrofiad.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **28/7/2019.**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **28/7/2019**